


## Mae cariad o'n cwmpas ym mhobman!

Mi welwch sawl poster ar waelod y llythyr hwn yn cyfeirio at weithgareddau Santes Dwynwen – sef nawddsant cyfeillgarwch a chariad. Rydym yn dathlu Diwrnod Santes Dwynwen ar y 25ain o Ionawr bob blwyddyn, sef wythnos i fory.

**Posteri:**

- Dydd Gwener 24ain o Ionawr, 3:30 – 5:00
  DISGO DWYNWEN yn Neuadd yr Ysgol Gymraeg – wedi'i drefnu gan y G.Rh.A
- Dydd Sadwrn 25ain o Ionawr, 11:30 – 1:30
  GWEITHGAREDD ARAD GOCH
  ebostiwch post@aradgoch.org neu ffoniwch 01970 617998 i archebu lle
- Dydd Sadwrn 25ain o Ionawr, 2:00 o'r gloch
  PARÊD A THWMPATH
  Mae croeso i chi ymuno gyda ni ar dop y dre' i orymdeithio gyda'r ysgol trwy strydoedd Aber. Dewch i gwrdd â ni ger y Cloc am 1:45yp

## *Love is in the air!*

*You will see several posters at the bottom of this letter referring to the activities of St Dwynwen - the patron saint of friendship and love. We celebrate St Dwynwen's Day on the 25th of January every year, which is a week from tomorrow.*

***Posters:***

- *Friday 24th of January, 3:30 – 5:00*
  *DWYNWEN'S DISCO in the School Hall - organised by the P.T.A*
- *Saturday 25th of January, 11:30 – 1:30*
  *ARAD GOCH ACTIVITY*
  *email post@aradgoch.org or call 01970 617998 to book a place*
- *Saturday 25th of January, 2:00 o'clock*
  *TWMPATH AND PARADE*
  *You are welcome to join us at the top of the town to march with the school through the streets of Aber. Come and meet us by the Clock at 1:45pm*

---

## Yr Eisteddfod Ysgol

Byddwn yn cynnal yr Eisteddfod Ysgol ar ddydd Gwener yr 21$^{ain}$ o Chwefror yn neuadd yr ysgol. Mae'n eisteddfod gynhwysol – bydd cyfle i **bawb** gymryd rhan ym **mhob** cystadleuaeth sydd ar gael i'w hoedran nhw.
Bydd y rhagbrofion ar gyfer llefaru a chanu yn digwydd ar ddydd Llun yr 17$^{eg}$, a'r rhagbrawf offerynnol ar ddydd Mawrth y 18$^{fed}$ o Chwefror. Bydd geiriau'r caneuon a'r darnau llefaru ac ati yn cael eu hanfon adref atoch gyda'r plant yn fuan.
Trefniadau Meithrin – bydd llythyr ar wahân yn eich cyrraedd gan staff y Meithrin. Gan fod y plant yn newydd i'r ysgol byddant yn cael eu gosod mewn tŷ, gyda phlant y prynhawn yn mynychu yn y bore ar ddiwrnod yr Eisteddfod er mwyn perfformio gyda'u cyfoedion. Bydd mwy o wybodaeth am yr Eisteddfod Ysgol yn eich cyrraedd yn nes at yr amser.

## *The School Eisteddfod*

*The School Eisteddfod will be held on Friday the 21$^{st}$ of February in the school hall.*
*It is an inclusive eisteddfod - **everyone** will have the opportunity to participate in **every** competition available for their age.*
*The prelim for reciting and singing will take place on Monday the 17$^{th}$, and the instrumental prelim on Tuesday the 18$^{th}$ of February.*
*The words to the songs and reciting pieces etc. will be sent home with the children soon.*
*Meithrin arrangements - a separate letter will be sent to you from the Nursery staff. As the children are new to the school, they will be placed in a house team, with the afternoon children attending in the morning on the day of the Eisteddfod in order to perform with their peers.*
*More information about the School Eisteddfod will reach you nearer the time.*

---

## Eisteddfod yr Urdd

Mae Eisteddfod yr Urdd yn eisteddfod ar wahân i'r Eisteddfod Ysgol. Dydyn nhw ddim yn gysylltiedig â'i gilydd.
Mae yna dair lefel o gystadlu gyda'r Urdd, gan gychwyn ar lefel Cylch Ystwyth yn Chwefror, yna lefel Rhanbarthol Ceredigion ym mis Mawrth, gyda'r uchafbwynt yn digwydd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dur a Môr Parc Margam 2025 ar ddiwedd mis Mai.

- Mae'r ysgol yn cystadlu mewn cystadlaethau torfol megis y Côr, Cerddorfa, Grwpiau Dawnsio ac ati. Ry'n ni fel ysgol yn cofrestru'r cystadlaethau hyn.
- **Os hoffech i'ch plentyn gystadlu'n unigol** (canu, llefaru, offerynnol, dawns) **mae angen i chi gofrestru arlein** gan ddilyn y ddolen isod. Dyddiadau cau: Ionawr 27ain ar gyfer offerynnol a dawns; Chwefror 17eg ar gyfer canu a llefaru; Ebrill 28ain ar gyfer Celf a Chrefft.
- Mae'n rhaid i blant fod yn aelodau o'r Urdd cyn medru cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

Cofrestru ar gyfer cystadlu:
Cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2025 | Urdd Gobaith Cymru

Rydym yn parhau i wneud dewisiadau ar gyfer y cystadlaethau torfol. Er gwybodaeth bydd y cystadlaethau canlynol yn ymarfer fel a ganlyn:

- **Côr, Cerddorfa, Grŵp Llefaru, Ymgom, Dawnsio Aml gyfrwng, Dawnsio Creadigol** : Yn ystod oriau ysgol (naill ai cyn ysgol, amser chwarae neu amser cinio; gyda'r dawnsio yn digwydd ar ddydd Gwener yn ystod y sesiynau Addysg Gorfforol)
- **Cân Actol** : Pob prynhawn dydd Mercher ar ôl ysgol rhwng 3:30 a 4:45yp yn neuadd yr ysgol, yn cychwyn ymhen pythefnos

## *Eisteddfod yr Urdd*


*The Urdd Eisteddfod is a separate eisteddfod from the School Eisteddfod. They are not connected to each other.*
*There are three levels of competition with the Urdd, starting at Aberystwyth Area level in February, then Ceredigion Regional level in March, with the finals taking place at the Urdd National Eisteddfod Dur a Môr Parc Margam 2025 at the end of May.*

- *The school competes in group competitions such as the Choir, Orchestra, Dance Groups etc. We register these competitions as a school.*
- ***If you would like your child to compete individually** (singing, reciting, instrumental, dance) **you need to register online** by following the link below. Closing dates: January 27th for instrumental and dance; February 17eg for singing and reciting, April 28th for Art and Craft.*
- *Children must be members of the Urdd to compete in the Urdd Eisteddfod.*

Register to compete here:
Competing Eisteddfod yr Urdd 2025 | Urdd Gobaith Cymru

*We are continuing to choose members for the group competitions. For your information the following competitions will practice as follows:*

- ***Choir, Orchestra, Recitation group, Ymgom, Multi-media Dancing, Creative Dancing**: During school hours (either before school, playtime or lunchtime; with the dancing taking place on Fridays during the P.E sessions)*
- *Cân Actol (Action Song) : Every Wednesday afternoon after school between 3:30 and 4:45pm in the school hall, starting in a couple of weeks.*





## Osgoi colli dillad!

Mae'r ysgol wedi cofrestru gyda chwmni sticeri Stikins sy'n golygu bydd y G.RH.A yn elwa 30% o gomisiwn unrhyw werthiant a wnaed drwy ddefnyddio'r côd 26273 (gweler y poster isod) Nid yw hyn yn golygu unrhyw gost ychwanegol i chi wrth brynu. Anogwn bawb i gofio rhoi enwau ar ddillad eich plant boed yn sticer neu feiro neu unrhyw ddull posib er mwyn lleihau'r nifer o eitemau coll.

## *Avoid losing clothes!*

*The school is now registered with Stikins sticker company which means that the P.T.A will benefit 30% of the commission of any sales made by using the code 26273 (see the poster below) This means no additional cost to you when purchasing. We encourage everyone to remember to put names on your children's clothes whether it be a sticker or a pen or any possible method to reduce the number of lost items.*




## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*


DISGO
SANTES
DWYNWEN
DYDD GWENER 24AIN IONAWR
3:30-5YH
FRIDAY 24TH JANUARY
3:30-5PM
DAWNSIO!
TOMBOLA SIOCLED!
LOSIN!
DIOD!
MYNEDIAD £2 ENTRY
BYDD ANGEN I RHIANT/GOFALWR AROS GYDA PHLANT
BLWYDDYN 2 AC IAU
BYDD TÊ A CHOFFI AR GAEL
CHILDREN YEAR 2 AND YOUNGER WILL NEED A
PARENT / CARER CHAPERONE
TEA AND COFFEE WILL BE AVAILABLE


PARÊD A THWMPATH
SANTES DWYNWEN
TWMPATH AND PARADE
25/1/25 2PM
Parêd / Parade : top y dre' / top of town
CROESO i BAWB!!! / ALL WELCOME!!!
DEWCH i DDATHLU YN EICH LLIWIAU LLACHAR!!!
JOIN US TO CELEBRATE IN YOUR BRIGHTEST COLOURS!!!
Twmpath:
Amgueddfa Ceredigion Museum
Ar ôl y Parêd / After the Parade
CYNGOR TREF
ABERYSTWYTH
TOWN COUNCIL
GŴYL
CARIAD
20
25


STIKINS® Name Labels
SIMPLY STICK IN & STAY IN – NO SEWING & NO IRONING
• Arbed amser!
• Llai o ddillad coll!
ARCHEBU O
ORDER FROM
WWW.STIKINS.CO.UK
OVER 12,000 INDEPENDENT REVIEWS
Defnyddiwch y côd 26273 wrth dalu er mwyn elwa 30% o gomisiwn i'r Ysgol
Use code 26273 at checkout to earn 30% commission for the School
Save time and money with just one label
for clothes, shoes, lunch boxes, and all school items


STIKINS® Name Labels
MILLIONS IN USE
SUPPLIED SINCE 2003
Un label enw aml-bwrpas i'w ddefnyddio ar gyfer sawl eitem gwahanol, gan gynnwys dillad ac esgidiau.
Stikins®
Maint Cywir/Actual Size
Stikins® Name Labels
One easy name label with multiple uses for all kinds of personal items, including clothes and shoes.
We print labels every working day up to 3pm & send them out same day by first class post.
120 STIKINS® Name Labels £18.00
90 STIKINS® Name Labels £15.00
60 STIKINS® Name Labels £12.00
30 STIKINS® Name Labels £9.00
2025 prices include VAT & UK delivery
Cofiwch defnyddio'r côd yma wrth dalu
Rhif Codi Arian / Fundraising Number
26273
If your school has a fundraising number, please use it when you order.
(Schools earn 30% commission)
Order online at www.stikins.co.uk - Pay by Credit/Debit Card, PayPal, or Apple Pay
Order by phone on 01270 668076 - Pay by Credit/Debit Card







Diolch i'r Pwyllgor Llesiant am y poster uchod – maen nhw am atgoffa pawb o'r angen i yfed dŵr yn unig yn ystod y diwrnod ysgol, ac i ddod â ffrwyth ar gyfer tocyn. Cofiwch hefyd ddod â bwyd iach yn eich bocsys bwyd amser cinio.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher***
**17/01/2025**
www.ysgolgymraeg.cymru

@YrYsgolGymraeg
Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY231HL
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk
Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James
01970 617613